Cwm Taf Morgannwg
Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol | Regional Partnership Board

MEYSYDD BLAENORIAETHOL DEMENTIA:

# Gwasanaethau Asesu Cof

**Gwella Profiadau Diagnosis.**

**Gwella taith diagnosis.**

**Mae gwasanaethau Asesu Cof yn chwarae rhan annatod yn nhaith rhywun i gael diagnosis o ddementia neu nam gwybyddol. Rydyn ni eisiau gwella'r profiad i bobl a'u cefnogi ar ba bynnag gam y maen nhw.**



## BETH SY'N BWYSIG I BOBL Â DEMENTIA?

Mae pobl â dementia a'u gofalwyr eisiau gallu cael y cymorth sydd ei angen arnyn nhw i fyw'n dda ac aros yn annibynnol cyn, yn ystod, ac ar ôl eu diagnosis.

"Mae'n anodd cael pobl â dementia i ymgysylltu oherwydd stigma. Does dim rhaid i'r diagnosis fod yn label brawychus."

## BETH FYDDWN NI'N EI WNEUD GYDA'N GILYDD:

- Rydyn ni eisiau gwneud y daith tuag at ddiagnosis yn well i bobl.

**Ein nod yw gwneud hyn drwy:**

- Lleihau anghydraddoldebau ar draws y rhanbarth.
- Lledaenu arfer da fel y gallwn wella profiadau pobl.
- Cefnogi pobl sy'n aros am eu diagnosis.

**Ein bwriad yw:**

1. Datblygu llwybrau Asesu Cof.
2. Archwilio a rhannu arfer da ar draws y rhanbarth.
3. Amlygu rhwystrau a newidiadau cadarnhaol i'w goresgyn.
4. Nodi blaenoriaethau ar gyfer gwaith i weithredu gwelliannau i wasanaethau a newid cadarnhaol.



**DYWEDODD POBL**

"Jest achos bod gyda chi ddementia, gallwch chi ddal i gael bywyd da. Nid dyma'r diwedd, gallwch chi gael ansawdd bywyd da."

## PA WAHANIAETH FYDD HYN YN EI WNEUD?

- Rydyn ni eisiau gwneud yn siŵr, waeth ble rydych chi'n byw yng Nghwm Taf Morgannwg, eich bod chi'n cael yr un canlyniadau. Mae hyn yn cynnwys cael mynediad teg at wasanaethau diagnosis a chymorth cyn ac ar ôl hynny.